Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN ADRODDIAD/ PENDERFYNIAD CRYNODOL

**PWRPAS:** PENDERFYNIAD GAN Y COMISIYNYDD

**Amseriad:** Arferol

**Teitl:** Dosbarthu taflenni'r Praesept Heddlu a'r Dreth Gyngor

**Categori Penderfyniad/ Maes Busnes a effeithir:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Un o brif ddyletswyddau Mr Llywelyn fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw gosod lefel y Praesept yr Heddlu.

Mae'r Rheoliadau Dreth Gyngor 2013 (Gweinyddu a Gorfodi) (Newid) (Cymru) yn hepgor y gofyniad cyfreithlon i gynnwys copi papur o lyfryn y Dreth Gyngor o fewn gofynion blynyddol y Dreth Gyngor. Erbyn hyn nid oes hawl gennym ond i gyfarwyddo'r cyhoedd i'r wefan lle gellid dod o hyd i lyfryn/ taflen a dim ond i roi copi caled os bydd y cwsmer yn gofyn.

Er hyn, bydd Mr Llywelyn yn rhannu manylion am ei Braesept Heddlu 2017/18 gyda'r hysbysiad ar gyfer y Dreth Gyngor. Er mwyn sicrhau eglurder a chyfathrebu gonest ac agored gyda'r cyhoedd, mae Mr Llywelyn wedi penderfynu dosbarthu'r i taflenni'r Praesept Heddlu a'r Dreth Gyngor hysbysu'r cyhoedd am y rhesymu tu ôl i'w benderfyniad i godi'r Praesept.

Er mwyn sicrhau printio cost effeithiol gofynnodd Swyddfa'r Comisiynydd am amcan bris gan 5 cwmni / sefydliad gwahanol. Wedi ystyried yr amcan brisiau a ddaeth i law, ar yr 22ain Chwefror 2017, penderfynodd Mr Llywelyn i roi'r gwaith i Heddlu De Cymru.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd am gymeradwy dosbarthu Taflen Praesept yr Heddlu gyda'r Hysbysiadau'r Dreth Gyngor, fel yr uchod.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiannau personol neu niweidiol parthed y mater hwn a chymeraf y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan mewn bywyd cyhoeddus.

Cadarnhaf ~~/ ni chadarnhaf~~ y cais uchod ~~/ nodaf y wybodaeth yn yr adroddiad (dilëwch fel ag y bo'n briodol)~~

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 27/02/2017**